Mae datblygiad y cynllun bellach ar ben, ond mae'n debyg mai penllanw'r gwaith hwn ydy dechrau'r gwaith go iawn – cael mwy o'r gymuned i gymryd rhan, denu cyllid a datblygu amwynderau, asedau a gwasanaethau newydd a fydd yn sicrhau dyfodol Dolwyddelan a Chwm Lledr.
Bydd Marc Roberts o Ymgynghoriaeth Rhos yn cyflwyno'r canfyddiadau ac yn ein diweddaru ar ddatblygiadau diweddar a chyfleoedd ariannu. Rydym wedi trefnu dwy sesiwn ym mis Mawrth i roi cyfle i bobl ddod i wrando a rhannu eu barn ...

**Y Pafiliwn**

**11eg o Fawrth,** rhwng **1yp a 5yh**

**15fed o Fawrth,** rhwng **11yb a 3yp**

## TRAFNIDIAETH

Bu i Uchelgais Gogledd Cymru lansio ymgynghoriad cyhoeddus pwysig ar Gynllun drafft Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ar yr 20fed o Ionawr. Mae'r ymgynghoriad 12 wythnos hon yn rhoi cyfle i breswylwyr, busnesau ac ymwelwyr siapio dyfodol trafnidiaeth yng ngogledd Cymru. Mae'r ymgynghoriad yn rhedeg tan Ebrill 14eg 2025, ac mae modd rhoi adborth drwy arddangosfa rithwir ar-lein, dros e-bost neu drwy'r post. Am fwy o fanylion ac i lenwi'r holiadur ewch i wefan yr ymgynghoriad
northwalesregionaltransportplan.virtual-engage.com neu cysylltwch gyda northwalesregionaltransportplan@arup.com

### Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru – Cynllun Trafnidiaeth ar gyfer Gogledd Cymru

**Dyma GYFLE ichi DDWEUD EICH DWEUD.**

Rydym rhoi cyfle i breswylwyr rannu eu sylwadau ar y ddogfen ymgynghori ar gyfer dyfodol cynlluniau trafnidiaeth gogledd Cymru. Gallaf ddarparu crynodeb o'r ddogfen ichi ar y diwrnod.
Eu nod ar gyfer yr ardal wledig ydy blaenoriaethu cysylltu cymunedau gwledig yn well gyda threfi cyfagos, cyfleusterau cymunedol cyfagos, meddygfeydd, ysbytai a siopau yn ogystal â chydgysylltu'r rheilffordd.
Eu hamcanion ydy ...

> Grymuso cymunedau lleol i arwain at gymryd rhan a chymryd perchnogaeth o ddatblygu atebion i broblemau trafnidiaeth.
> Cyfle i geisio cyflawni'r gwelliannau trafnidiaeth sy'n angenrheidiol yn gymdeithasol i atal arwahanrwydd gwledig.

Caiff y cyfarfod ei gynnal yn y Pafiliwn ar

**DDYDD MERCHER 5ed o Fawrth o 1:00yp tan 4:00yp**